**Beirniadaethau Cystadleuaeth Y Goron Bl.10 a dan 25 oed (365)**

**Beirniaid: Llŷr Titus a Sonia Edwards**

**Beirniadaeth: Llŷr Titus**

Diolch yn fawr i'r sgwennwyr ifanc hynny fentrodd i yrru eu gwaith i mewn – pedwar ar ddeg i gyd a dyma nodi cyn bwrw iddi yn iawn fel hyn fod yna rywbeth i'w ganmol a'i annog ym mhob ymgais ddaeth i law ac y ces i fwynhad mawr o'u darllen nhw. Fe gafwyd mymryn o ddryswch ynghylch geiriad y gystadleuaeth eleni ac felly wedi trafod hefo'r Urdd mi benderfynwyd ein bod ni yn derbyn 'darn neu ddarnau' er tegwch i bawb gan i'r geiriad hwnnw a 'darnau' yn unig gael ei gyhoeddi/ O ran hynny, mi fyddwn i yn annog yr Urdd i droi'r geiriad yn ôl at 'darn neu ddarnau' yn y dyfodol hytrach na mynnu ar 'ddarnau' yn unig gan na fedra i feddwl pam fod cyfyngu ar y gystadleuaeth yn help i ddarpar sgwennwyr o gwbl.

Y cyngor cyffredinol fyddai gen i i bob ymgeisydd fyddai i ddarllen yn eang, yn enwedig yn Gymraeg fel fod sgaffald yr iaith yn rywbeth sydd wrth law gennych chi yn handi. Does ddim rhaid i chi fwynhau be da chi'n ddarllen i gael budd ohono fo, chwaith. Weithiau mae meddwl sut y byddech chi yn gwneud gwell joban ohoni yn llawn mor fuddiol a chael ysbrydoliaeth. Yr ail gyngor ydi bod un ansoddair fel arfer yn hen ddigon os ydyn nhw wrth ymyl ei gilydd!

Da oedd gweld fod cynifer o'r ymgeiswyr wedi bwrw iddi i sgwennu o'u profiad am bethau oedd yn bwysig iddyn nhw hefyd ac fe gawsom ni'n dau gip fywyd myfyrwyr yn y brifysgol, bywydau ffigyrau o'r gorffennol a'r dyfodol, bydoedd ffantasiol a rhai pobl ar lawr gwlad hefyd.

Er fod na fymryn o waith trafod ar yr union drefn mi oeddwn i a fy nghyd-feirniad yn gytûn ar y rhai ddaeth i'r brig ac i'r rheiny sydd wedi cyrraedd y fan honno mi gewch chi fod yn sicr fod eich gwaith chi yn sefyll ar wahân yn amlwg i'r ddau ohonom ni. I'r rheiny na ddaeth cweit mor agos – peidiwch digalonni – daliwch ati i sgwennu a pheidiwch a hidio gormod am farn awdur o Ynys Môn ac idiot o ben Llŷn hyd yn oed os ydi o yn licio meddwl ei fod o'n deall rhywbeth, weithiau.

Dyma air am yr ymgeisiadau fel yr ymddangosodd nhw ar y 'porth' i mi yn hytrach nac unrhyw drefn fel arall:

Blodeuwedd – Braf oedd cael picio i mewn i fyfyrdodau tair cymeriad a phob un hefo dehongliad ei hun o 'loches'. Roedd sylweddoliad Nain yn ei ymson hi bod pethau'n dadfeilio o'i chwmpas yn un enwedig o deimladwy. Dwi'n cytuno gyda Sonia fod mwynhad Blodeuwedd o ymgolli mewn geiriau yn amlwg a hefyd bod angen tynnu'n ôl rhyw fymryn weithiau – yr un cyngor mae sawl ymgeisydd yn ei gael – dewis ansoddeiriau yn ofalus ac awgrymu yn hytrach na dweud bob tro.

Camddwr: Dyma i chi ymgais wnaeth ddal sylw yn syth ac un y gwnes i fwynhau'r ddyfais fframio yn enwedig – myfyrdodau neuadd bentref sydd gan Camddwr yn edrych ar ddigwyddiadau'r gymuned o'i chwmpas a'r hyn sydd yn mynd ymlaen ynddi. Rhaid cyfaddef i mi wirioni ar hynny o'r cychwyn cyntaf ond nid syniad da yn unig sydd gan Camddwr mae yma wreiddioldeb a gallu i graffu. Mae gan Camddwr afael dda ar hiwmor a chymeriadau hefyd a dyma sgwennwr sy'n sgwennu o le o adnabyddiaeth drylwyr o gymuned amaethyddol, un sydd hefyd ddim yn ofni dychanu a rhoi golwg onest arni a dangos be sydd yn llechu o dan ambell garreg. Oes na fymryn o ramantu? Bosib bod ond mae traed Camddwr ar y ddaear at ei gilydd.

Gwennol – Roedd portread Gwennol o artist ifanc wedi colli gafael arni ei hun a cholli mwynhad yn ei gwaith yn un effeithiol ac fe hoffais i sut y cefais i fy nhynnu i'w byd hi. Roedd yr ail ddarn 'Anheddle' yn un anoddach cynhesu ato ond dwi'n tybio bod hynny'n fwriadol a da oedd gweld dau ddarn cyferbyniol. Er, mi fyddwn i'n awgrymu bod gallu rhoi rhywbeth i ddarllenydd gydymdeimlo hefo fo hyd yn oed gyda chymeriad anodd yn beth i roi cynnig arno fo ac y byddai ehangu ar hynny yn yr ail ddarn yn rhoi mwy o afael i ymgais Gwennol.

János – O'm rhan i dyma ymgeisydd mwyaf dychmygus yr holl gystadleuaeth wrth i ni gael ein tywys i fyd dystopaidd, dyfodolaidd yn Hwngari. Fe ges i fy argyhoeddi a fy nhynnu i mewn gan y byd mae János wedi ei greu a chael fy hun yn ysu i wybod mwy am y gymuned hon drwy lygaid chwilfrydig Ainkó y prif gymeriad. Doedd popeth ddim yn cael ei esbonio ac roeddwn i'n hoff iawn o hynny, ond efallai fod yma ormod yn cael ei wasgu i le bach gyda ymddangosiad yr Eidalwyr tua diwedd y darn yn mynd yn ormod o bwdin a'r diweddglo o ganlyniad yn frysiog braidd. Tybed os oes yma ddarn fwy estynedig wedi ei dorri i ffitio gofynion y gystadleuaeth? Neu, os nad oes, tybed os oes yna ddeunydd ar gyfer darn hirach, fwy uchelgeisiol János? Nofel efallai?

Meifa: Dau ddarn cymharol fyr sy'n profi nad oes angen sgwennu llithoedd i daro deuddeg. Llwyddodd Meifa i fyd o dan groen y cymeriad di-enw yn dda gyda phortread sy'n taro'n driw ac yn realistig ac yn aros yn y cof. Mae yma sylwi ar fanylion bach difyr hefyd – y bocsys a'r ffrâm luniau a rhyw awgrym fod mwy i fywyd y prif gymeriad na sy'n cael ei rannu. Mi wnes i licio'r cynildeb hwnnw, ond yr hyn wnaeth fy nennu fi at Meifa oedd y ffordd y gwnaethon nhw ddangos sut oedd perthynas yn dadfeilio ac yn pellhau drwy gyfrwng newidiadau mewn negeseuon ffôn. Mi o'n i'n meddwl bod Meifa wedi dal hynny'n eithriadol o dda ac yn graff eithriadol. Mi fyddwn i'n annog mwy o ddyfnder o ran hanes y prif gymeriad a'u cymhelliant nhw, efallai, ond mae hynny'n gamp gyda cyn lleied o eiriau.

Oriel – Mi ges i flas garw ar darn cyntaf a mwynhau defnydd Oriel o feintiau gwahanol ffont ac atalnodi i gyfleu trallod meddyliol y prif gymeriad. Fe oeddwn i'n gweld dylanwad Megan Angharad Hunter ar Oriel sydd ddim yn ddrwg o beth o gwbl, ac fel Megan roeddwn i'n teimlo fod Oriel yn gallu cyfleu sialensau iselder ysbryd mewn ffordd ddeallus a sensitif. Mi ges i fy nghyffwrdd hefyd gan ddiweddglo y darn cyntaf. Ches i ddim cymaint o flas ar yr ail ddarn ac er ei fod o'n cynnig golwg fymryn yn wahanol ar bwnc cyfarwydd, sef dementia a bod y dryswch oedd gan y prif gymeriad rhyngddi ei hun a Lini, rhyw gymeriad yr oedd hi wedi ei greu i blesio ei Mam, yn cynnig trywydd difyr a gwanhaol i'r arfer mi fyddwn i'n annog Oriel i fynd yn ôl at y darn yma i dynhau mymryn arno fo.

Padarn: Tri darn dros dair cenhedlaeth gafwyd gan Padarn a rheiny yn dangos y newid sydd wedi digwydd yn ardal Llanberis ers y chwedegau. Fe ges i fy nhynnu yn enwedig at stori Sion a Steve yn y 90au ac un Betsi heddiw a wir dyna lle mae cryfder Padarn. Dyma sgwennwr sy'n rhagori wrth gyfleu y cyfoes – o ran y darlunio byw ond hefyd o ran dal iaith a ffordd o siarad. Taswn i'n cynnig cyngor yna annog mymryn mwy o ymchwil o ran ysgrifennu am y gorffennol fyddai hynny. Er fod perthynas Marged a Gwil yn un gynnes fel y cymeriadau pellaf o 'heddiw' y portread ohonyn nhw yn ifanc oedd yr un oedd yn teimlo yn llai triw i bobol go iawn yn fy marn i. Pan mae nhw'n hŷn ac yn y presennol mae nhw'n taro deuddeg – tybed os oes yna le i holi pobl hŷn am fwy o fanylion sut oedd pethau yn y 60au Padarn a thiwnio'r glust yn feinach i sut mae nhw'n siarad?

Pedro – Mae gan Pedro allu i gynnig tro boddhaol i ddiwedd darn gyda'r darn cyntaf yn enwedig yn cynnig diweddglo effeithiol. Hwnnw a'r pumed darn oedd y rhai cryfaf yng nghasgliad Pedro o'm rhan i a dwi'n rhyw deimlo fod cymryd mwy o le i ehangu ar y pynciau o dan sylw yn rhywbeth sydd yn cryfhau gwaith Pedro a bod angen dal ati i ymarfer i allu cyfleu rhywbeth mor eglur mewn

lle llai. Efallai bod angen i Pedro hel mwy o brofiad wrth daclo rhai o'r pynciau mawr sydd dan sylw ganddyn nhw hefyd – ond dal ati sydd ei angen o ran hynny.

Rwdan – Mae bwrlwm ac afiaith Rwdan wrth ysgrifennu yn amlwg ac fe fedrai ddychmygu i'r ymgeisydd yma gael hwyl wrth fwrw iddi i ysgrifennu am hanes Arwel prif gymeriad y darn. Fe wnes i werthfawrogi yr ymgais i rannu dan o hanes cwiar er mi fyddwn i'n annog Rwdan i ymchwilio yn fwy trylwyr yn y dyfodol. Cymaint oedd bwrlwm Rwdan a'r ysfa i adrodd hanes Arwel a'i deulu nes bod y darn yn symud ar wib ac fe oeddwn i, ar adegau, yn gweld eisiau oedi yma ac acw yn hytrach na brysio o un pennod o'i hanes i'r llall. Ond wedi dweud hynny roeddwn i'n gwerthfawrogi techneg Rwdan wrth adrodd stori un cymeriad o safbwynt sawl cymeriad arall ac o ddal ati a morol fod gan pob cymeriad ei lais unigryw ei hun, ac o fod fymryn yn fwy disgybledig, fe fedra'i weld Rwdan yn gallu rhoi mwy o sglein ar hanes Arwel yn sicr.

Siân Glyn – Darn o ffuglen hanesyddol, dychmygus y cefais flas arno fo. Lwyddodd Siân Glyn i greu awyrgylch arbennig ar ddechrau ei darn. Wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen bron nad oedd o'n dechrau magu naws chwedlonol neu hanes llên gwerin – roedd o hefyd yn magu cyflymder ac wedi y darn cyntaf a osododd y cyd-destun a'r cymeriadau mor daclus roeddwn i' gweld hynny'n biti braidd. Mi fyddwn i wedi licio darllen mwy am ymateb Siân i golli ei dyweddi ac er mod i'n edmygu uchelgais adrodd hanes gweddill ei bywyd hi mewn darn cymharol fyr mi oedd gwneud hynny yn golygu bod y diweddglo braidd yn rhy frysiog.

Traws Cambria: Dechreuad ymgais Traws-Cambria oedd yr un dynnodd fy sylw i orau drwy'r holl gystadleuaeth, wir mae'r darn cyntaf gan yr ymgeisydd yma yn un llachar o ran arddull, gallu a mynegiant a'r darn unigol y ces i fwyaf o flas arno fo drwy'r gystadleuaeth ar ei hyd. Mae gan Traws Cambria afael hynod ar iaith lafar o sawl ardal wahanol yng Nghymru er bod y darn cyntaf yn iaith lafar ochrau Dyffryn Nantlle yn taro'n fwy triw na'r gweddill dwi'n meddwl. Yn anffodus doedd pob darn ddim yn cyrraedd uchelfannau'r cyntaf ond wir mae yma sgwennwr cyffrous, talentog dwi'n gobeithio gwnaiff ddal ati. Mae gan Traws Cambria allu fel sgwennwr yn sicr.

Twm Henri – Dau ddarn gwahanol iawn gan Twm Henri, sydd i'w ganmol. Mae'r cyntaf yn ddychmygus a fymryn yn astrus ac yn cynnig cip ar fyd dystopaidd. Mae'r ail stori yn un sensitif, empatheig gyda Twm Henri yn trafod pwnc anodd, trais domestig yn erbyn plant, mewn ffordd ddeallus. Fe oeddwn i'n enwedig wedi cymryd at berthynas y ddau frawd a'r ffordd oedd eu closrwydd yn cael ei bortreadu. O ddal ati i ysgrifennu ac aeddfedu fymryn dwi'n siŵr y bydd Twm Henri yn gallu codi ei ysgrifennu i lefelau uwch fyth.

Wali Tomos – Braf oedd cael fy nhaflu i hwyl byd myfyriwr unwaith eto ac roedd yr hiwmor achlysurol ddeuai wrth i ni ddysgu mwy am Ani. Mae Wali Tomos yn gallu sylwi ar fanylion bach fel y dodrefn mewn neuadd myfyrwyr yn dri shêd o frown ac mae'r cymharu rhwng perthynas Ani a'i Mam gydag alcohol yn cynnig gofod difyr i fynd i'r afael â alcoholiaeth a cham-drin seicolegol. Mae nhw'n bynciau mawr serch hynny ac anodd ar y gorau ydi trafod rhai felly mewn cyn lleied o le. Mi wnes i gymryd at y diweddglo gobeithiol hefyd ond roedd o'n teimlo'n fwr-bwt braidd a fymryn yn gyfleus, mae lle i'r stori yma anadlu fwy dwi'n meddwl. Digri oedd y canllaw i fyfyrwyr a oedd yn ail ddarn gan Wali ac fe wnes i fwynhau'r llais hwyliog oedd yn cynnig ei gyngor i ni. Fe wnes i hefyd ddysgu ambell beth newydd ond er mor hwyliog a ffres oedd y darn yma doeddwn i ddim yn siŵr os mai drws nesa i 'Chdi, Fi a'r Botel' oedd ei le fo. Mae hefyd angen diweddaru mymryn ar y darn Wali – tydi'r Torïaid ddim mewn grym erbyn hyn yn un peth! Ar pob cyfri ailgylchwch ddarnau fel sgwennwyr (dwi wedi wneud o fy hun droeon) ond mae'n rhaid wrth fymryn o dwtio i wneud hynny.

Y Wennol – Fe ges i hwyl garw yn darllen y darn yma hefo'r portread byw, realistig o fywyd myfyrwyr yn Aberystwyth. Dyma sgwennwr sy'n gallu cymeriadau a deialogi'n effeithiol ac yn un sy'n gallu sylwi ar fanylion a'u cyfleu i ni gan ein tynnu i'w byd.  Y Wennol wnaeth i mi chwerthin uchaf o'r holl gystadleuwyr gyda'r llinell anfarwol 'Fi'n cofio'r boi yn gwlychu'i hunan yn ystod amser llaeth a ffrwyth yn y Meithrin' sydd o bosib yn dweud mwy amdana i na Y Wennol. Ond mae'r hiwmor naturiol yma yn gryfder mawr gan Y Wennol ynghyd â'i gallu i gyfleu y berthynas glos rhwng tair ffrind – pob un yn wahanol hefyd ac yn cael eu cymeriadu yn dda iawn ac yn graff ryfeddol. Mae'r darlun sy'n cloi ymgais Y Wennol yn un agos atoch ac yn un sydd wedi aros yn y cof. Cryfder Y Wennol o'm rhan i oedd y darnau ysgafnach felly efallai bod angen mymryn mwy o ymarfer ar y darnau dwysach ond mae yma sgwennwr sydd yn nabod eu pwnc a'u cymeriadau ac yn gallu dod a nhw'n fyw ac un y byddwn i wir yn annog i ddal ati.

Felly, pwy sy'n mynd a hi? Fel hyn oedd y 'dosbarth cyntaf' o'm rhan i a Sonia: Y Wennol, Camddwr a Traws Cambria a'r dair ymgais yn agos. O roi trydydd i Meifa roedd yn rhaid pwyso a mesur Camddwr a Traws Cambria a'r ddwy ymgais hefo rhagoriaethau gwahanol ond, wedi trafod a dwy banad o goffi go gryf rhyngthon mi ddaeth Sonia a minnau i gytundeb – am ddarn oedd yn rhoi darlun byw, a gwreiddiol o gymuned ac yn llwyddo i wneud hynny mewn ffordd a oedd yn gyson o ran safon Camddwr sy'n mynd a hi, a llongyfarchiadau mawr!

Ga'i annog pawb fwriodd iddi i ddal ati, i weithio'n galed ar ddatblygu eu gwaith, ac i beidio digalonni – 'dalier ati' oedd y cyngor i mi bob tro pan oeddwn i'n dechrau arni a mae o'n gyngor cystal â'r un i sgwennwr.

Diolch i bawb ymgeisiodd, dwi'n gobeithio bydd y pwt yma o feirniadaeth o gymorth i chi wrth i chi fynd yn eich blaen.

**Beirniadaeth Sonia Edwards**

Diolch o galon i'r awduron ifanc a anfonodd eu gwaith i Gystadleuaeth y Goron. Daeth tri chynnig ar ddeg i law ac mae'r nifer, ynghyd â gwastadrwydd y safon a'r addewid a welwyd yn yr holl gyfansoddiadau, yn hynod galonogol. Braf hefyd yw cael datgan ein bod ni'n dau, fel beirniaid, yn unfryd unfarn ynglŷn â'r tri ymgeisydd a ddaeth i'r brig, a'i bod yn bleser o'r mwya cyhoeddi y bydd teilyngdod ym Môn eleni. Dyma fwrw ati, felly, i grynhoi fy sylwadau ar y pedwar ymgeisydd ar ddeg:

*Rwdan:* Mae'r darn cyntaf yn dilyn bywyd cymeriad o'r crud i'r bedd, ond ar garlam braidd. Pob clod i'r awdur am geisio ymdrin â phwnc dyrys, ond byddai ymarfer mwy o gynildeb drwy fwrw goleuni ar un digwyddiad penodol wedi cryfhau'r cynnig. Cryfder *Rwdan* yw'r

darnau byr sy'n gogwyddo tuag at lên meicro. Maent yn taro tant, ac o'u strwythuro, byddai ynddynt gryn addewid.

*Padarn:* Tri darn difyr a darllenadwy sy'n ymestyn dros dair cenhedlaeth. Dyma fewnolwg sensitif ar y ffordd y gorfodir cymuned i symud hefo'r oes. Mae'r ddeialog yn gredadwy ac yn tynnu'r darllenydd yn nes. Ymdrech addawol dros ben.

*Blodeuwedd:* Dyma un sy'n hoff o eiriau ac yn dangos cryn sylwgarwch. Gydag ychydig o ffrwyno'r mynegiant yma ac acw, byddai'r gwaith yn dynnach ei wead, ond dyma ddangos addewid sicr gan rywun sy'n amlwg yn mwynhau sgrifennu. Dalier ati'n wir.

*Pedro:* Casgliad o bum stori, a thair ohonynt yn gwyro i dir llên meicro. Mae'r cyfan yn hynod addawol. Mae *Pedro*'n ymdrin yn ddewr â themâu heriol a gwelwn yma ddiddordeb llenor yn y natur ddynol.

*János:* Epig o stori ddystopaidd sy'n styrblyd ac yn annwyl ar yr un pryd. Mae gwybodaeth yr awdur yn rhyfeddol, a'r gyfeiriadaeth at y themâu yng ngweithiau János Arany a Lásló Krasznahorkai yn ddeallus ac aeddfed. Daw Bwdapest yn fyw drwy'r gwaith, ond y gwendid ynddo yw ei brysurdeb, sy'n tueddu i anfon darllenydd ar chwâl. Dyma gynnig uchelgeisiol, gafaelgar a chefais flas mawr arno.

*Oriel:* Dyma ymgeisydd arall nad yw'n ofni taclo'r themâu mawr, ac yn yr ail ddarn mae'n rhoi cynnig gwrol ar drafod dementia. Mae yma ddisgrifiadau synhwyrus a chyffyrddiadau cofiadwy e.e. 'Fy mhlentyndod wedi'i rewi ar silff.' Gwaith darllenadwy iawn ac iddo adeiladwaith sicr.

*Gwennol:* Gweithiau gwastad ac ynddynt gyffyrddiadau synhwyrus. Gall *Gwennol* hoelio sylw darllenydd yn ddeheuig; mae'r ail ddarn yn rhagori yn fy marn i, lle mae thema fawr dirfodaeth yn cael ei thrin yn sensitif a deallus.

*Twm Henri:* Dyma ddwy stori ddystopaidd, deimladwy sy'n adlewyrchu'r elfen ddynol yn gelfydd. Mae'r safon yn wastad, a'r gwaith yn afaelgar tu hwnt. Dyma awdur empathetig sy'n creu awyrgylch a thyndra'n effeithiol iawn.

*Wali Tomos:* Mae gen i gof o ddarllen y gwaith hwn mewn cystadleuaeth  arall, ac rwy'n dal i feddwl ei fod yn waith hynod ddarllenadwy, a'r iaith yn llifo'n rhwydd. Mae'r ail ddarn yn ffraeth a difyr, ond gallai'r awdur fod wedi diweddaru'r ffeithiau gwleidyddol y cyfeirir atynt er mwyn cadw'r gwaith yn ffresh a chyfredol.

*Siân Glyn:* Cefais flas arbennig ar y gwaith hwn sy'n mynd â'r darllenydd yn ôl i'r ddeunawfed ganrif ac i fyd smyglwyr ar arfordir Môn. Mae naws chwedlonol/hanesyddol i'r cyfan, ac mae'r cymeriadau'n fyw a'r stori'n gafael. Mae'r adeiladwaith yn gadarn, fel y mae gafael Siân Glyn ar iaith. Llwyddodd i ail-gonsurio'r oes a fu mewn ieithwedd sy'n gweddu i'r gwaith.

*Y Wennol:* Dilyniant o dair stori, lle gwelir dawn sgrifennu amlwg o'r brawddegau cyntaf, sy'n afaelgar ac yn gosod yr olygfa'n syth. Dyma un a ŵyr werth brawddegau byrion, bachog i adeliadu tensiwn. Mae yma awyrgylch a momentwm sy'n tynnu'r darllenydd i mewn yn syth. Cawn ddarlun bywiog a chredadwy o fywyd tair myfyrwraig. Mae'r gwaith yn real ac yn cydio -  y joio, y meddwi, y caru a'r difaru, a chyfeillgarwch tair merch yn gynnes dros y cyfan. Gwaith bach grêt. Rydw inna wedi joio'i ddarllen yn arw!

*Traws Cambria:* Dyma un all rwydo darllenydd yn syth bìn; awdur sy'n fywiog, yn fwrlwm, yn fyw. Chwe darn gwastad iawn o ran safon sy'n mynd â ni ar deithiau bỳs i wahanol lefydd, tra'n dweud llawer iawn mwy wrthym am fywyd a pherthnasau a threialon yr awdur ei hun. Maen nhw'n ddarnau myfyriol sy'n cwmpasu'r dwys a'r doniol. Mae yma ddawn sgrifennu amlwg, adnabyddiaeth o bobol a chlust fain ryfeddol am dafodiaith.

*Camddwr:* Sylwebydd craff ydi *Camddwr,* ac un o gryfderau'r awdur hwn, ynghyd â'i afael gadarn a hyfryd ar deithi'r iaith, ydi adnabod pobol. Nid *Camddwr* ei hun sy'n beirniadu aelodau'r gymdeithas ac yn hel clecs, wrth gwrs. Na, mae'r awdur yn glyfrach na hynny, ac yn y fan hyn cawn achos go iawn o'r 'waliau'n siarad', gan mai i neuadd y pentref ei hun y rhoddir y llwyfan, mewn mwy nag un ystyr. Mae'r neuadd fel hen wreigan nad oes ganddi ddim byd gwell i'w wneud na chadw llygad barcud ar ei chymdogion, neu, yn yr achos hwn, ar aelodau'r gymdeithas amaethyddol sy'n ei defnyddio'n ganolfan i gynnal ystod eang o weithgareddau. Ac afraid dweud fod y gweithgareddau hyn yn gyfrwng perffaith i bawb ddangos eu lliwiau. Gwylio, gwrando a chofnodi'n ddistaw ydi swyddogaeth y neuadd, ond ni all siarad, wrth reswm, ac felly ni all fradychu cyfrinachau neb. Ac eto, cawn y teimlad na fydd sicrwydd yn nhawedogrwydd y neuadd chwaith, oherwydd onid un o wendidau'r natur ddynol ydi ei bradychu'i hun yn hwyr neu'n hwyrach? Mae hwn yn gyfanwaith strwythuredig, yn bersonoliad cynnil a'r arddull yn grafog, ogleisiol. Pe bai'r neuadd hon yn berson go iawn, credaf y byddai hi'n hen wraig reit beryg i'w nabod!

Tasg anodd i feirniad yw dewis rhwng y tri a ddaw i'r brig, yn enwedig pan fo trwch asgell gwybedyn – neu lai – rhwng ambell un ohonynt. Bu hon yn gystadleuaeth safonol iawn a bu pob ymdrech yn ganmoladwy. Ond fel hyn maen nhw'n sefyll: Y Wennol a gaiff y drydedd wobr, mae'r ail wobr yn mynd i *Traws Cambria*, a Choron Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026, a phob anrhydedd a berthyn iddi, i *Camddwr*.